ATODLEN 2

# RHAN 3

## Mesurau i reoli Clefyd y ddafaden tatws

### Dehongli

**3.** Yn y Rhan hon—

(a) ystyr "Clefyd y ddafaden tatws" yw naill ai'r clefyd tatws a achosir gan y ffwng *Synchytrium endobioticum* (Schilbersky) Percival neu'r ffwng hwnnw, fel y bo'r cyd-destun yn mynnu;

(b) mae llain o dir i'w hystyried yn llain halogedig os bydd prawf swyddogol yn cadarnhau bod Clefyd y ddafaden tatws yn bresennol ar o leiaf un planhigyn sy'n tyfu neu a dyfwyd ar y llain honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Mesurau swyddogol ynglŷn â lleiniau tir halogedig

**4.**—(1) Rhaid i arolygydd iechyd planhigion ddarnodi unrhyw lain halogedig a pharth diogelwch o amgylch y llain honno sy'n ddigon mawr i sicrhau diogelwch yr ardal o'i hamgylch.

(2) Rhaid i arolygydd iechyd planhigion gyflwyno hysbysiad o dan reoliad 15(1) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gloron neu wlydd tatws sy'n bresennol ar y llain halogedig neu sydd wedi dod o'r llain halogedig, gael eu trin mewn modd sy'n sicrhau bod Clefyd y ddafaden tatws sy'n bresennol arnynt yn cael ei ddinistrio.

(3) Pan fo arolygydd iechyd planhigion wedi ei fodloni bod unrhyw gloron neu wlydd tatws wedi eu halogi â Chlefyd y ddafaden tatws ac na all yr arolygydd ganfod a fu'r cloron neu'r gwlydd hynny yn bresennol ar lain halogedig, caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad o dan reoliad 15(1) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r swp cyfan sy'n cynnwys y cloron neu'r gwlydd yr effeithiwyd arnynt gael ei drin mewn modd sy'n sicrhau nad oes risg y bydd Clefyd y ddafaden tatws yn lledaenu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Gwahardd plannu tatws ar leiniau halogedig

**5.**—(1) Pan fo llain halogedig wedi ei darnodi o dan baragraff 4(1), ni chaiff unrhyw berson—

(a) tyfu unrhyw datws ar y llain, neu

(b) tyfu neu storio ar y llain unrhyw blanhigion a fwriedir i'w trawsblannu.

(2) Ni chaiff unrhyw berson dyfu tatws mewn parth diogelwch a ddarnodir o dan baragraff 4(1) oni bai bod arolygydd iechyd planhigion wedi ei fodloni eu bod o rywogaeth sydd ag ymwrthedd i'r hiliau o Glefyd y ddafaden tatws a geir ar y llain halogedig y mae'r parth diogelwch yn ymwneud â hi.

(3) Bernir bod amrywogaeth tatws yn un sydd ag ymwrthedd i hil benodol o Glefyd y ddafaden tatws at ddibenion is-baragraff (2) pan fo'r amrywogaeth honno yn adweithio i halogiad gan gyfrwng pathogenig yr hil honno mewn modd sy'n sicrhau nad oes perygl o sgil-heintio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 2 para. 5 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

### Dirymu darnodiad llain halogedig

**6.** Pan fo arolygydd iechyd planhigion wedi ei fodloni nad yw Clefyd y ddafaden tatws yn bresennol mwyach ar lain a ddarnodir o dan baragraff 4(1) neu ar ei pharth diogelwch cysylltiedig, rhaid i'r arolygydd ddirymu'r darnodiad hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 27.3.2020, gweler **rhl. 1**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020, RHAN 3.